CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol
## 2007 - 2022

# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ynglŷn â Chanllawiau Cynllunio Atodol, Cynllun Datblygu Lleol ynghylch:

# Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg (2015)

Cyngor Sir Ceredigion Mehefin 2015

Cyngor Sir
CEREDIGION
CEREDIGION
County Council

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ynglŷn â Chanllawiau Cynllunio Atodol, Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion ynghylch:

- Y Gymuned a'r Iaith Gymraeg (2015)

Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a fabwysiadwyd fis Mehefin 2015

Cafodd y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft uchod eu cymeradwyo at ddibenion ymgynghori cyhoeddus gan Gyngor Sir Ceredigion ar 28 Ionawr 2015.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 19 Chwefror 2015 a daeth i ben am hanner dydd ar 8 Ebrill 2015. Anfonwyd oddeutu 288 o lythyron ac ebyst (gan ddibynnu ar y dull cyswllt o'u dewis) at yr ymgynghoreion ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Hysbyswyd yr ymgynghoreion fod y dogfennau ymgynghori ar gael am ddim ar wefan yr Awdurdod a bod copiau papur ar gael am ddim yn llyfrgelloedd (gan gynnwys llyfrgelloedd symudol) Ceredigion.

Darparwyd y dogfennau am ddim i Gynghorau Tref a Chymuned Ceredigion. Cafodd yr ymgynghoriad ei hysbysebu ar wefan yr Awdurdod ac ar hysbysiad cyhoeddus yn y Cambrian News a gyhoeddwyd yn rhifyn 19 Chwefror 2015.

Cafodd yr holl ymatebion eu cydnabod, ac maent oll ar gael yn gyhoeddus. Cyflwynodd 7 o unigolion a chyrff 12 o sylwadau unigol. Cyflwynwyd ymatebion y swyddogion i Ganllawiau Cynllunio Atodol y Gymuned a'r Iaith Gymraeg gerbron Cyngor Sir Ceredigion yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2015 (ar gael ar http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/I%202015 0623.pdf Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Cyngor ar 24/09/2015 (Cofnodion 23/06/15, Cofnod Rhif 12) http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/A%2024.9 .pdf .

Ar ôl trafod penderfynodd y Cyngor fel a ganlyn:

i) cytuno y dylid parhau i weithredu Polisi DM01 yn llawn fel y mae yn y CDLl a fabwysiadwyd (gan gynnwys rheidrwydd am Asesiad o'r Effaith Gymunedol ac Ieithyddol);

ii) dirprwyo'r hawl i'r Swyddogion ymateb i'r sylwadau a gafwyd a gwneud mân newidiadau i Ganllawiau Cynllunio Atodol y Gymuned a'r Iaith Gymraeg a mynd ati wedyn i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yr Iaith Gymraeg.